HYSBYSIAD O ETHOLIAD
ETHOLIAD SENEDD CYMRU
ETHOLAETH ALUN A GLANNAU DYFRDWY
ETHOLAETH DELYN

1. Cynhelir etholiad i ethol Aelod i wasanaethu yn Senedd Cymru dros y ddwy etholaeth a enwir uchod.

2. Rhaid cyflwyno ffurflenni enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref drwy apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw i Swyddog Canlyniadau Etholaeth yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6NR, rhwng 9.00am a 5.00pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener) ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, ond erbyn 4**.00pm ddydd Iau, 8 Ebrill 2021** fan bellaf. Gellir cyflwyno ffurflenni cydsynio i enwebiad trwy e-bost i etholiadau@siryfflint.gov.uk

3. Mae papurau enwebu i'w cael yn y lleoliad ac yn ystod yr amseroedd a nodir uchod. Bydd Swyddog Canlyniadau Etholaeth yn paratoi papur enwebu i'w lofnodi ar gais unrhyw etholwr.

4. Gall pob ymgeisydd dalu ei ernes (£500) mewn arian parod neu drwy ddrafft banc (banciau sy'n weithredol yn y Deyrnas Unedig yn unig) neu, os byddaf wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw, drwy daliad electronig.

5. Os bydd mwy nag un ymgeisydd, cynhelir y bleidlais **ddydd Iau, 6 Mai 2021.**

6. Rhaid i geisiadau i ychwanegu enw at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddfa Gofrestru Etholiadol isod erbyn **dydd Llun, 19 Ebrill 2021.** Gellir gwneud ceisiadau ar lein yn **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**

7. Dylai etholwyr a'u dirprwyon nodi bod rhaid i unrhyw gais am bleidlais bost newydd, neu gais i newid neu ganslo pleidlais bost, gyrraedd y Swyddfa Gofrestru Etholiadol isod erbyn **5.00pm ddydd Mawrth, 20 Ebrill 2021.** Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu ddirprwyon sy'n dymuno newid eu trefniadau presennol yn barhaol.

8. Rhaid i unrhyw gais i benodi dirprwy gyrraedd y Swyddfa Gofrestru Etholiadol isod erbyn **5.00pm ddydd Mawrth, 27 Ebrill 2021**.

9. Gellir penodi dirprwy os yw cyflwr meddygol, salwch neu anabledd etholwr, neu eu galwedigaeth, eu gwasanaeth neu eu cyflogaeth yn golygu na allant fynd i orsaf bleidleisio ar ôl **5.00pm ddydd Mawrth, 27 Ebrill 2021**. Rhaid i'r cais gyrraedd y Swyddfa Gofrestru Etholiadol erbyn **5.00pm ddydd Iau, 6 Mai 2021.**

Manylion Cysylltu'r Swyddfa Gofrestru Etholiadol	Rhif Ffôn
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NR	01352 702300

Bydd etholiadau Senedd Cymru ar gyfer rhanbarth etholiadol Gogledd Cymru ac etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Ardal Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu cynnal yr un diwrnod. Bydd rhai ardaloedd hefyd yn cynnal is-etholiadau llywodraeth leol.

Dyddiedig: Dydd Llun 22 Mawrth 2021

NOTICE OF ELECTION
SENEDD CYMRU ELECTION
ALYN AND DEESIDE CONSTITUENCY
DELYN CONSTITUENCY

1. An election is to be held for a Member to serve in the Senedd Cymru for each of the said Constituencies.

2. Nomination forms and home address forms must be delivered by prior appointment to the Constituency Returning Officer at County Hall, Mold, Flintshire CH7 6NR, between the hours of 9.00 am and 5.00 pm on any working day (Monday to Friday) after the date of this notice but not later than **4.00 pm on Thursday, 8 April 2021**. Consent to nomination forms may be delivered by email to elections@flintshire.gov.uk

3. Nomination papers may be obtained at the place and times mentioned above. The Constituency Returning Officer will, at the request of any elector, prepare for signature a nomination paper.

4. The deposit for each candidate (£500) can be paid by cash or bankers draft (banks operating in the United Kingdom only) and with my prior permission by electronic payment.

5. If the election is contested, the poll will take place on **Thursday, 6 May 2021**.

6. Applications to be added to the Register of Electors in order to vote at this election must reach the Electoral Registration Office below on **Monday, 19 April 2021**. Applications can be made online at **www.gov.uk/register-to-vote**

7. Electors and their proxies should take note that all applications, amendments or cancellations for new and existing postal votes must reach the Electoral Registration Office below by **5.00 pm on Tuesday, 20 April 2021**. This includes electors or their proxies who wish to make alterations to their existing arrangements on a permanent basis.

8. Applications to appoint a proxy must reach the Electoral Registration Office below by **5.00 pm on Tuesday, 27 April 2021**.

9. A person may appoint a proxy on the grounds of medical condition, illness, disability or if their occupation, service or employment means they cannot go to a polling station after **5.00pm on Tuesday, 27 April 2021**. The application must reach the Electoral Registration Office below by **5.00pm on Thursday, 6 May 2021**.

Electoral Registration Office Contact Details	Telephone Number
County Hall, Mold, CH7 6NR	01352 702300

Elections for Senedd Cymru North Wales electoral region along with a poll for a Police and Crime Commissioner for the North Wales Police Area will be held on the same day. Some areas will also be holding local government by-elections.

Dated: Monday 22 March 2021

Colin Everett
Swyddog Canlyniadau Etholaeth / Constituency Returning Officer

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan Swyddog Canlyniadau Etholaeth, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NR / Printed and published by the Constituency Returning Officer, County Hall, Mold, Flintshire. CH7 6NR